Area 43 / Depot
35 Pendre
Aberteifi
SA43 1JS
01239 614 566

# SWYDDOG CYLLID
# Pecyn Gwybodaeth Recriwtio



# Croeso

## Helo, a chroeso cynnes!

Diolch am eich diddordeb yn Area 43, a elwir felly oherwydd ei bod wedi’i lleoli yn nhref hanesyddol Aberteifi yng ngorllewin Cymru sy’n ganolbwynt i god post SA43.

Am fwy na 25 mlynedd, mae Area 43 wedi darparu cymorth galw heibio a chwnsela i nifer o bobl ifanc sy’n agored i niwed yn ein cymuned. Rydym yn falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni, ond yn y blynyddoedd diwethaf mae'r byd wedi newid. Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd pobl ifanc yn profi problemau iechyd meddwl cynyddol, hunanladdiad, ynysu, a system gymorth nad oedd yn diwallu eu hanghenion. Ym 1996, sefydlwyd Area 43 i fynd i’r afael â’r materion yma a thros y blynyddoedd, rydym wedi llwyddo i helpu nifer o bobl ifanc leol i lywio’r heriau y maent yn eu hwynebu yn llwyddiannus.

Mae un o bob wyth o bobl ifanc yn dioddef o broblem iechyd meddwl. Mae 30% yn byw mewn tlodi, mae mwy na thraean wedi hunan-niweidio. Mae pobl ifanc yn profi diffyg cyfleoedd cyflogaeth, materion yn ymwneud â delwedd y corff a materoliaeth, pwysau gan y cyfryngau cymdeithasol a stereoteipio negyddol, a’r hen broblemau o dlodi, cam-drin domestig a materion teuluol eraill, camddefnyddio sylweddau, a throseddu. Ychwanegwch at hynny flwyddyn allan o'r ysgol, wedi'i hynysu oddi wrth ffrindiau, teulu a systemau cymorth, ac mae'r argyfwng ar bwynt critigol. Rhaid i ni wneud rhywbeth yn ei gylch.

Mae angen i ni fynd i’r afael yn uniongyrchol â’r materion sy’n ymwneud ag arwahanrwydd, hunan-barch, a gwytnwch i fynd i’r afael â’r materion iechyd meddwl sy’n effeithio ar bobl ifanc. Mae angen i ni wneud hyn gyda phobl ifanc, yn hytrach na chreu gwasanaethau a gosod pobl ifanc ynddyn nhw. Mae angen i ni fod yn hyblyg, yn cael ein harwain gan anghenion, yn wybodus am drawma, ac yn ddibynadwy. Mae angen i bobl ifanc wybod y gallan nhw ddod atom ni, nid yn unig pan fyddan nhw’n wynebu argyfwng, ond cyn hynny, y cânt eu clywed, y gwrandewir arnyn nhw, a’u bod yn cael eu cefnogi i wneud newidiadau.

Mae angen i wasanaethau apelio at bob person ifanc. Mae angen iddynt fod yn agored, yn gynhwysol ac yn ymgysylltiol. Mae profiadau anfygythiol, hwyliog a gwerth chweil yn hanfodol i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu ac yn mynd i gyrchu gwasanaethau. Felly, pe baent byth mewn argyfwng, maent yn gwybod ble i droi am gymorth.

Croesawn bobl waeth beth fo’u hoedran, anabledd, hunaniaeth o ran rhywedd, statws priodasol, hil, ffydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir economaidd-gymdeithasol, a ph’un a ydych yn feichiog neu ar absenoldeb teuluol. Yn unol â'n hymrwymiadau i degwch hiliol a chynhwysiant traws, croesawn yn arbennig geisiadau gan bobl sydd â'r hunaniaethau yma. Rydym wedi ymrwymo i newid gwasanaethau, gan eu gwneud yn berthnasol i ieuenctid heddiw.

Os yw hyn yn cyd-fynd â'ch persbectif, gobeithiaf y byddwch yn gwneud cais am y swydd hon.

Yn gywir,

**Rachael Eagles**
**Prif Swyddog Gweithredol**



# Pwy Ydym Ni

Elusen ysbrydoledig yw Area 43 (wedi'i chofrestru fel Prosiect Ieuenctid Aberteifi) sydd wedi'i lleoli yn nhref Aberteifi, gorllewin Cymru. Darpara wybodaeth, cymorth a hyfforddiant i bobl ifanc 11-25 oed a gwasanaethau cwnsela i rai 5-30 oed. Wedi'i sefydlu fel prosiect sy'n cael ei arwain gan anghenion cymunedol ym 1996, rydym wedi bod yng nghanol y Trydydd Sector yng ngorllewin Cymru ers dros 25 mlynedd. Yn 2019 daeth Area 43 yn Sefydliad Corfforedig Elusennol o dan Ddeddf Elusennau 2006 a caiff ei lywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr.

Trwy ein caffi ieuenctid, Depot, darparwn amgylchedd diogel, hwyliog, addysgiadol ac ysbrydoledig i bobl ifanc gael mynediad at gymorth; ac rydym yn rhoi'r grym i bobl ifanc i fynegi eu hunain drwy ymgysylltu â'r materion sy'n effeithio arnyn nhw'n uniongyrchol. Gwnawn hyn trwy ymarfer addysgiadol, cyfranogol, gan eu galluogi i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau cadarnhaol tuag at eu cymunedau trwy fod yn gynhwysol ac anfeirniadol yn ein hymagwedd.

Mae ffocws cryf ar atal trwy hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, gan atgyfnerthu patrymau ymddygiad cadarnhaol fesul cwnsela, ymwybyddiaeth ofalgar a, lle bo'n briodol, cymorth cymheiriaid.

## Nodau Elusennol

Gan ddatblygu a darparu ystod eang o wasanaethau cymorth i bobl ifanc, ein hamcanion yw:

- Galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu hunan-barch ac agwedd gadarnhaol at eu bywydau a'u lle mewn cymdeithas.
- Eu hannog i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau
- Mynd i'r afael â'r problemau y maent yn eu hwynebu yn eu hamgylchiadau cartref, perthnasoedd, profiadau cymdeithasol a bywyd, gan roi sylw arbennig i'r rhai sy'n cael eu herio gan ddigartrefedd, diweithdra, camddefnyddio sylweddau/alcohol, troseddoldeb a gwahaniaethu.
- Mae gennym wir ddiddordeb arbennig mewn gweithio gyda'r rhai sydd dan anfantais yn gymdeithasol, yn addysgol, yn economaidd, neu'n ddaearyddol neu sydd ag unrhyw fath o anabledd.
- Darparu cyfleoedd dysgu go iawn ffurfiol ac anffurfiol i bobl ifanc sy'n eu hannog a'u galluogi i gyrraedd eu potensial.
- Cydweithio a rhannu arfer da a phrofiad gydag asiantaethau (statudol ac anstatudol) sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc a chreu cysylltiadau a chynrychioli anghenion a dyheadau pobl ifanc o fewn eu cymunedau ac i'r llywodraeth.

## Ein Gwerthoedd

Rydym am ddefnyddio pŵer:

**Cydlyniad Cymdeithasol.** Cynnig profiadau a rennir a lle i gwrdd â'r rhai o amryw gefndiroedd, gan hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth a meithrin cyfeillgarwch.

**Cymunedau gwydn.** Rydym am helpu pobl ifanc i ddatblygu gwerthoedd, hunangred a chred mewn eraill i ddod yn ddinasyddion hyderus, gweithredol. Rydyn ni am gynnig lle i berthyn, sgiliau i lwyddo a dod yn optimistaidd am y dyfodol.

**Cyfranogiad dinesig.** Rydym am roi cyfleoedd i bobl ifanc wella eu bywydau a bywydau'r rhai o'u cwmpas, gan gymryd camau cymdeithasol pendant yn eu cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Gwell symudedd cymdeithasol.** Helpwn i ddatblygu sgiliau bywyd, y cymeriad, y sgiliau ymarferol a chyflogadwyedd y bydd pobl ifanc yn eu cludo gyda nhw pan fyddan nhw'n oedolion, gan eu cynorthwyo i lwyddo.

I adeiladu:

- **Sgiliau Bywyd Unigol**
- **Cysylltiadau rhwng pobl**
- **Rhwydweithiau Cymorth Gwell**
- **Mwy o gyfleoedd bywyd**

Golyga hyn bod pobl ifanc hapusach ac iachach yn cyflawni eu potensial yn dod yn well ffrindiau, teulu a chymdogion a gwell gweithwyr, cydweithwyr a dinasyddion.

## Caffi Ieuenctid

Rheda Area 43 gaffi ieuenctid, Depot, yn Aberteifi; man cyfarfod diogel, pwrpasol o safon ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed. Pobl ifanc ar gyfer pobl ifanc sy'n pennu'r ddarpariaeth, mewn partneriaeth ag oedolion, gweithwyr proffesiynol dibynadwy a phartneriaid cymunedol.

Darpara Depot ddarpariaeth bwyd cymorthdaledig, diodydd twym, cyfrifiadur a mynediad i'r rhyngrwyd. Rydym hefyd yn cynnig amryw o weithgareddau difyr – celf a chrefft, cerddoriaeth, coginio, hylendid bwyd, rheoli cegin, cadw tŷ, sgiliau rhyngbersonol, rheoli arian, cyllidebu, a llawer o bethau eraill, gan ddibynnu ar anghenion pob un o'r bobl ifanc, gan alluogi digwyddiad cyffrous, gan ganiatau darpariaeth newydd i bobl ifanc sy'n cael ei rhedeg gan bobl ifanc.

## Gwasanaeth Cwnsela

Yn ein canolfan yn Aberteifi, darparwn wasanaeth cwnsela cwbl broffesiynol a chyfrinachol i unrhyw berson ifanc 11-25 oed. Mae Area 43 yn cynnig gwasanaethau cwnsela annibynnol yn Ysgol Bro Preseli a Gwasanaeth Cwnsela Annibynnol mewn Ysgolion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 13 yn ysgolion Sir Gâr.

Mae gennym hefyd nifer o gontractau a grantiau allanol ychwanegol sy'n cyfrannu at ein gwasanaethau. Mae gennym rwydwaith sylweddol o gwnselwyr cwbl gymwys, a Chyfarwyddwr Clinigol sy'n gyfrifol am safonau proffesiynol a rheoli ansawdd.

# Disgrifiad Swydd

## Teitl y Swydd: Swyddog Cyllid

| | |
|---|---|
| **Contract:** | Parhaol, amser-llawn (37 awr yr wythnos) |
| **Cyflog:** | £29,434 y flwyddyn |
| **Lleoliad:** | Lleolir yn Aberteifi, Ceredigion, SA43 1JS<br>Efallai y bydd angen teithio a gweithio mewn lleoliadau Area 43 eraill |
| **Buddion:** | Cyfraniadau pensiwn: 3% cyflogwr; 5% gweithiwr<br>20 diwrnod y flwyddyn a gwyliau banc statudol |
| **Rheolwr Llinell**: | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol |
| **Yn gyfrifol am**: | Cynorthwy-ydd Cyllid |

### Area 43

Mae Area 43 yn darparu cyfuniad o wasanaethau gwaith ieuenctid, fesul Depot, caffi ieuenctid Area 43. Mae'n darparu man diogel mewn modd anffurfiol llawn hwyl i bobl ifanc (11 – 25 oed) yn yr ardal a thrwy wasanaethau cwnsela a phrosiectau cymunedol. Mae'n hyrwyddo datblygiad personol, addysgol, creadigol a chymdeithasol pobl ifanc Ceredigion, gan eu cynorthwyo i gyrraedd eu llawn botensial.

### Bwriad Area 43 yw darparu amgylchedd cefnogol lle mae pobl ifanc yn:

- Cael gafael ar gymorth a gwybodaeth.
- Darganfod syniadau a gweithgareddau newydd cyffrous nad ydynt yn debygol o'u profi mewn unrhywle arall.
- Arbrofi, gwneud camgymeriadau a ffynnu.
- Cael y cyfle i wella eu llesiant trwy gymorth cwnsela.
- Trin eu hunain ac eraill gyda charedigrwydd a pharch.
- Yn llawn cymhelliant, yn gadarnhaol ac yn wydn.
- Ennill sgiliau er mwyn meithrin annibyniaeth.

### Pwrpas y rôl:

I gynorthwyo'r Dirprwy Brif Weithredwr i baratoi gwybodaeth ariannol a chyfrifyddu'r cwmni ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys darparu a dadansoddi adroddiadau rheoli chwarterol, paratoi cyfrifon blynyddol, cyllidebau a rhagolygon. Bydd yn sicrhau bod rheolaethau ariannol cadarn ar waith. Byddwch hefyd yn gyfrifol am swyddogaeth cyflogres yr Elusen.

### Cyfrifoldebau:

### Rheolaeth Ariannol

Cefnogi'r Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol i baratoi a rheoli pob agwedd ar gyfrifon a chyllidebau rheolaeth ariannol Area 43:

- Darparu cyfrifon rheoli chwarterol a dadansoddiad ariannol amserol a chywir, gan gynnwys cyfrif elw a cholled, cysoniadau mantolen, ysgogwyr costau, cyllidebau ac amrywiannau, rhagolygon, gyda sylwadau, i'w hadolygu.
- Cwblhau croniadau chwarterol i sicrhau bod costau yn cael eu hadlewyrchu yn y chwarter cywir yn y cyfrifon.
- Diweddaru siart o gyfrifon a chodau prosiect i gyd-fynd â gofynion adrodd. Cwblhau adolygiad cyfnodol o gofnodion i gyfrifon enwol a datrys gwallau.
- Rheoli llif arian, cyfalaf gweithio ac adnoddau yn effeithiol, gan nodi materion i'r Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol.

- Herio gwariant gorbenion gweithredol i nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion a mesurau lliniaru i atal gorwariant.
- Datblygu cyllidebau cadarn, rhagolygon a chynlluniau ariannol i gefnogi penderfyniadau effeithiol gan uwch reolwyr.
- Monitro dangosyddion allweddol i olrhain perfformiad busnes a nodi meysydd i'w gwella.
- Cynnal cofrestr asedau Area 43.
- Darparu cefnogaeth gyda gweithgareddau cau diwedd blwyddyn a pharatoi adroddiad blynyddol a chyfrifon Area 43.

### Adrodd

- Paratoi adenillion ariannol i gyrff comisiynu.
- Monitro dyraniad adnoddau ar draws timau cyflawni.
- Cefnogaeth wrth adrodd yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau.

### Cyflogres a Phensiynau

- Rheoli prosesu cyflogres o un pen i'r llall, gan gynnwys TWE a materion cysylltiedig, SSP, SMP, SPP, didyniad pensiwn, atafaelu enillion, dechreuwyr/ymadawyr, gweithdrefnau diwedd blwyddyn TWE, gan gynnwys darparu ffurflenni diwedd blwyddyn P60 a P11Dau a P45au.
- Prosesu mewnbynnu a gwirio'r holl ddata cyflogres yn gywir ac yn amserol gan gynnwys budd-daliadau trethadwy, data absenoldeb, oriau banc, taliadau goramser, taliadau shifft a thaliadau gwyliau. Paratoi a phrosesu lle bod angen.
- Rheoli cyflenwi, yn unol ag amserlen y gyflogres, gan sicrhau cywirdeb ac amseroldeb cynhyrchu cyflogres.
- Rheoli a didynnu pensiynau.
- Sicrhau bod rhediadau cyflog a thaliadau BACS yn cael eu cwblhau'n gywir ac ar amser.
- Cynhyrchu slipiau cyflog ar gyfer cyfrifiadau cyflogres â llaw lle bod angen.
- Delio ag ymholiadau cyflogres, gan gynnwys ymholiadau CThEM, gan gyflogeion hyd at ddatrysiad boddhaol.
- Darparu cyfrifiadau â llaw i gefnogi'r gwaith o ddatrys ymholiadau cyflogres yn amserol.
- Cynnal gwybodaeth cyflogres trwy gasglu, cyfrifo a mewnbynnu data.
- Sicrhau bod data FPS ac EPS CThEM ac adroddiadau amser real yn cael eu cysoni a'u cyflwyno'n fisol.
- Adrodd i CThEM yn unol â gofynion RTI.
- Nodi meysydd allweddol o leihau gwallau cyflogres a rhoi atebion effeithiol ar waith.
- Sicrhau bod prosesau cyflogres yn cael eu dogfennu fel gweithdrefnau gweithredu safonol i sicrhau cadw gwybodaeth a ffyrdd effeithiol o weithio.
- Cynnal archwiliadau cyflogres i sicrhau cywirdeb data cyflogres
- Rheoli, goruchwylio a phrosesu cofrestru awtomatig a gweinyddu cynllun pensiwn, gan gynnwys prosesu a chysoni didyniadau cynllun pensiwn cwmni, gan gynnwys gweinyddu Cynllun Nyth.
- Sicrhau y caiff gofynion gorfodol a statudol eu bodloni yn unol â deddfwriaeth a gofynion y cynllun.

### Cyffredinol

- Darparu cefnogaeth i'r Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Gweithredol lle bod angen.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion gorfodol, statudol a rheoliadau ariannol a pholisïau a gweithdrefnau ariannol Area 43.
- Cynnal gwybodaeth am ddeddfwriaeth gyfredol a newydd sy'n effeithio ar y gyflogres a sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei rhannu gyda'r Uwch Dîm Arweiniol.
- Sicrhau bod rheolaethau ariannol cryf yn eu lle a bod gweithdrefnau a pholisïau cyfrifo Area 43 yn cael eu dilyn yn gywir gan Reolwyr.
- Argymell gwelliannau i brosesau, polisïau a gweithdrefnau rheolaeth fewnol i wella effeithlonrwydd.
- Tasgau eraill yn ymwneud â chyllid yn ôl yr angen o bryd i'w gilydd.
- Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau Area 43.

## Manyleb Person

### Profiad:

- Cyfrifydd cymwysedig neu rannol-gymhwysol (CIMA/ACCA/ACA/AAT) neu brofiad perthnasol (efallai y bydd Area 43 yn gallu cefnogi'r ymgeisydd cywir i ennill cymhwyster).
- Byddai cymhwyster cyflogres neu gymhwyster cyfatebol a/neu brofiad yn y gyflogres yn fantais amlwg (er hynny, rhoddir hyfforddiant ac efallai y bydd Area 43 yn gallu cefnogi'r ymgeisydd cywir i ennill cymhwyster).
- Profiad o gynhyrchu cyfrifon rheoli chwarterol gan gynnwys Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) a rhagolygon.
- Profiad gweithredol perthnasol.
- Profiad profedig o gymryd perchnogaeth o faes cyfrifoldeb.
- Medrau meddwl dadansoddol cryf a sgiliau dadansoddi amrywiol.
- Profiad o gydlynu a dadansoddi data ariannol a gweithio gydag uwch aelodau o staff i gefnogi rheolaeth ariannol effeithiol.
- Y gallu i ddehongli a chysylltu darnau o wybodaeth â'i gilydd i lywio penderfyniadau.
- Dull trefnus o ddatrys cyllidebol
- Gwybodaeth gref o egwyddorion ariannol, cyllidebu a thechnegau rhagweld.
- Gallu datrys problemau rhagweithiol.
- Sylw cryf i fanylion a lefel uchel o gywirdeb.
- Sgiliau trefnu a rheoli amser gwych.
- Gweithio'n gyfrinachol a thrin materion yn sensitif yn ôl yr angen.
- Bod â gogwydd at brosesau a defnyddio menter i symleiddio a dysgu prosesau newydd.
- Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.
- Y gallu i weithio'n dda ar eich pen eich hun ac fel rhan o dîm.
- Y gallu i reoli a blaenoriaethu llwyth gwaith heriol, gweithio i derfynau amser a defnyddio eich menter eich hun.

### Sgiliau:

- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar effeithiol gyda’r gallu i gyflwyno data cywir mewn modd cryno a rhesymegol.
- Sgiliau rhyngbersonol cryf, y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol gydag ystod eang o bobl.
- Hyder wrth ymdrin â sefyllfaoedd heriol ac unigolion.
- Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phobl a gweithio mewn cytgord ag eraill.
- Bod yn agored i heriau, syniadau a phrofiadau newydd.
- Dyfeisgarwch, gwytnwch ac arloesedd i allu rheoli gwahanol flaenoriaethau.
- Y gallu i weithio gydag ystod o staff a rhanddeiliaid tra'n deall a pharchu pwysigrwydd cyfrinachedd.
- Hyfedredd mewn sgiliau cyfrifiadurol a meddalwedd cyfrifo ynghyd â Microsoft Office Suite, gyda meistrolaeth gref ar Excel.
- Agwedd hyblyg at weithio.
- Agwedd gadarnhaol a gallu gwneud.

### Gwybodaeth:

- Gwybodaeth am y sector elusennol.
- Gwybodaeth am iechyd a diogelwch o fewn yr amgylchedd gwaith.
- Yn gymwys gyda phecynnau meddalwedd TG.
- Y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid ydyw’n hanfodol.

Fel aelod o dîm Area 43, mae rhai disgwyliadau cyffredin gan bawb, waeth beth fo'u rôl. Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn gyrru pwy ydym ni a'r hyn a wnawn.

### Fel aelod o dîm Area 43, gofynnwn i chi:

- Drin eich cydweithwyr â pharch, gan herio a chefnogi ei gilydd yn briodol a chadw at ein haddewid elusennol;
- Cyfrannu at ddiwylliant lle mae'n ddiogel i godi llais pan fydd mater yn codi, mewn dull adeiladol a phroffesiynol, gan fabwysiadu agwedd sy'n galluogi pobl i ddysgu a newid eu hymddygiad;
- Creu amgylchedd lle gall pobl fod yn ddilys iddyn nhw eu hunain, gan adlewyrchu ein huchelgais o dderbyn heb eithriad;
- Bod yn llysgennad ar gyfer Area 43 a'n gwaith, yn fewnol ac yn allanol;
- Rhannu eich gwybodaeth a helpu eich cydweithwyr i fod y gorau y gallan nhw, tra hefyd yn berchen ar eich datblygiad personol a'ch perfformiad eich hun;
- Deall eich cyfrifoldebau o dan bolisïau allweddol, gan gynnwys Cydraddoldeb ac Urddas yn y Gweithle; iechyd a diogelwch; diogelu data; TG; cyfryngau cymdeithasol a diogelu.

### Golyga hyn y byddwch yn:

- Ymddwyn mewn ffordd ac yn gwneud penderfyniadau er budd Area 43 a'n staff, gwirfoddolwyr, buddiolwyr a chefnogwyr;
- Dangos dealltwriaeth dda ac ymrwymiad i gynnwys hunaniaethau LHDTC+ ym mhob cefndir gyda pharodrwydd i ddysgu a chael eich herio;
- Cynorthwyo pobl i ddeall a chydymdeimlo'n well â'r heriau y gall pobl anabl a'r rhai ag anawsterau dysgu eu hwynebu a lleihau'r stigma cysylltiedig;
- Dangos ymrwymiad i ddysgu am, a gweithredu dull Area 43 o ymdrin â chydraddoldeb hiliol a dileu gwahaniaethu ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig;
- Deall eich bod yn bersonol gyfrifol am eich ymddygiad eich hun;
- Cymryd camau gweithredol i ddeall y polisïau a gweithdrefnau allweddol a dilyn eich cyfrifoldebau fel y'u hamlinellir gan y rhain;
- Mynychu unrhyw sesiynau briffio a hyfforddiant i'ch cynorthwyo yn eich rôl;
- Cydweithio â chydweithwyr o bob rhan o'r Elusen;
- Gofyn a holi am gyngor os nad ydych yn sicr o'ch cyfrifoldebau;
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill fel y cewch eich cyfarwyddo neu y cytunwyd arnyn nhw gyda'ch rheolwr llinell

Mawrth 2024

## Sut mae gwneud cais

Os hoffech wneud cais am y swydd hon, llenwch y ffurflen gais swydd a'i hanfon ymlaen gyda:

- Cofnod Cyrhaeddiad (CV) diweddar yn amlinellu hanes eich cyflogaeth, cymwysterau academaidd a phroffesiynol.
- Datganiad ategol (dim mwy na 2 x tudalen A4) yn amlinellu eich cymhelliant dros wneud eich cais ac yn dangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ym Manyleb y Person.
- Ffurflen fonitro wedi'i chwblhau (nodwch os gwelwch yn dda, nid yw hyn yn hanfodol).

Cyflwynwch eich cais fesul e-bost at: sallyh@area43.co.uk

Neu drwy’r post at: Sally Hurman, Area 43, 35 Pendre. ABERTEIFI, SA43 1JS

**Dyddiad Cau**: Dydd Mawrth 7 Mai 2024

**Cyfweliadau**: Wythnos yn dechrau Dydd Llin 20 Mai 2024

Nodwch yn eich cais os oes gennych unrhyw ymrwymiadau yn ystod y cyfnod cyfweld a allai gyd-daro â'r dyddiadau hyn.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, neu os hoffech drafod y rôl, cysylltwch â Sally Hurman i wneud trefniadau ar gyfer sgwrs gyda'r rheolwr perthnasol.

*Mae Area 43 wedi ymrwymo i gydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth a chroesawn geisiadau gan bob ymgeisydd sydd â chymwysterau addas. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith cefnogol lle caiff pob unigolyn ei barchu, ei werthfawrogi a'i gynnwys.*